

# DIWEDDARU MODEL SAGIS COEDYDD DERW MEIRIONNYDD (GLASLYN)

Adroddiad Graddnodi Annhechnegol SAGIS ar gyfer dalgylch Coedydd Derw Meirionnydd

30 MAI 2023

Dŵr Cymru Welsh Water

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

# YMWADIAD

Paratowyd y ddogfen hon a'i chynnwys yn unswydd er gwybodaeth i Gyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru Welsh Water mewn perthynas ag adroddiad graddnodi model SAGIS dalgylch Coedydd Derw Meirionnydd.

Ni all Cyfoeth Naturiol Cymru na Dŵr Cymru Welsh Water briodoli cyfrifoldeb i unrhyw barti arall mewn perthynas â, yn deillio o, neu mewn cysylltiad â'r ddogfen hon a/neu ei chynnwys.

# HANES Y DDOGFEN

Teitl y ddogfen: Adroddiad Graddnodi Annhechnegol SAGIS ar gyfer dalgylch Coedydd Derw Meirionnydd.

| ADOLYGIAD | PWRPAS DISGRIFIAD | CYCHWYNNWYD GAN | DILYSWYD (DCWW) | ADOLYGWYD (CNC) |
|---|---|---|---|---|
| 1.0 | Drafft am sylwadau | Atkins | RJ | GW |

# ARCHWILIAD O'R MODEL

| ARCHWILYDD | SEFYDLIAD | DYDDIAD |
|---|---|---|
| CP/ES/LK/NH | Binnies ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru | 31 Mawrth 2023 |

# CYNNWYS

DATA MODELU 5

GRADDNODI'R MODEL 6

HYDER YN Y MODEL 6

ARCHWILIAD O'R MODEL 6

DATA'R MODEL 8

CYFEIRIADAU 9

# FFIGURAU

FFIGUR 1 – MAP SY'N DANGOS CYRFF DŴR DALGYLCH DYFROEDD COEDYDD MEIRIONNYDD 4

FFIGUR 2 – CANLYNIADAU'R GWAITH MODELU SAGIS ACA COEDYDD MEIRIONNYDD 7


# 1. MODELU ACA COEDYDD DERW MEIRIONNYDD

Pwrpas y nodyn hwn yw darparu trosolwg o'r dull modelu cyfrifiadurol a ddefnyddir i ddatblygu cynlluniau ar gyfer buddsoddiadau dŵr gwastraff er mwyn helpu i sicrhau bod y cyrff dŵr yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) dalgylch Coedydd Meirionnydd yn bodloni'r amcanion ansawdd dŵr o ran ffosfforws Mae'r gwaith modelu wedi cael ei gwblhau ac wedi bod trwy broses sicrwydd ansawdd CNC, a Binnies fu'n gyfrifol am gyflawni hyn.

Rhan o ddalgylch Coedydd Meirionnydd yn unig sydd wedi ei dynodi'n ACA o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 fel y'u diwygiwyd (y cyfeirir atynt fel 'Y Rheoliadau Cynefinoedd'). Yn Ionawr 2021, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) adroddiad ar yr asesiad o gydymffurfiaeth â'r targedau tynnach o ran ffosfforws, sy'n dangos bod y cyrff dŵr yn yr ACA yn cyflawni eu targedau.

Yn ddiweddar, mae CNC a Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) wedi rhoi rhaglen o waith modelu ansawdd dŵr ar waith er mwyn cael gwell dealltwriaeth o ffynonellau'r ffosfforws ar draws y dalgylch cyfan, ac archwilio dulliau posibl o weithredu er mwyn gwella rhagor ar ansawdd y dŵr yn yr ACA. Er y defnyddir y term 'ffosfforws' yn y ddogfen hon, dylid nodi y gelwir y math o ffosfforws a fodelwyd yn 'orthoffosffad', a dyma'r math sy'n cael ei fesur a'i gymharu â'r targedau amgylcheddol. Y ddealltwriaeth yw taw hwn yw'r math o ffosfforws â'r bioargaeledd uchaf.

Dylid nodi, ym mis Medi 2022, penderfynodd CNC i beidio â chynnwys corff dŵr GB110065053960 yn yr Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA, gweler isod). Dylid nodi nad yw llawer o'r cyrff dŵr yn y dalgylch ehangach yn rhan o'r ACA ac mae'r rhain yn destun safonau ansawdd y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD). Mae Ffigur 1 yn dangos yr ACA a'r rhai sy'n cael eu rheoleiddio o dan y WFD.




Ffigur 1 - Map sy'n dangos cyrff dŵr dalgylch Coedydd Meirionnydd.

# 2. MODELU ANSAWDD DŴR

Mae modelu ansawdd dŵr yn caniatáu ar gyfer profi effeithiolrwydd rheolaeth ar ffynonellau llygredd ac ymyraethau mewn amgylchedd rhithiol er mwyn helpu i glustnodi'r rhai sy'n debygol o fod yn fwyaf effeithiol mewn gwirionedd. Mae modelu'n helpu i ddarparu hyder y bydd y mesurau'n cyflawni'r deilliannau amgylcheddol a ragwelir.

Fodd bynnag, mae modelau cyfrifiadur yn symleiddio sut y cynrychiolir systemau naturiol cymhleth, felly rhaid ystyried eu cyfyngiadau yn rhan o'r broses o ddatblygu cynlluniau gweithredu. Yn wir, mae modelu ar ei fwyaf defnyddiol o'i ddefnyddio yn rhan o ddull gweithredu sy'n seiliedig ar 'bwysau tystiolaeth' lle mae'n cael ei ddefnyddio mewn cyfuniad â ffynonellau eraill, gan gynnwys gwybodaeth leol a mewnbwn gan arbenigwyr eraill yn y pwnc. Mae'r camau allweddol yn y broses modelu'n cynnwys:

- Diweddaru a graddnodi'r modelau fel eu bod yn darparu cynrychiolaeth resymol o amodau diweddar y dalgylch.
- Clustnodi a nodweddu cyfyngiadau ac elfennau o ansicrwydd o bwys.
- Efelychu senarios gwella ansawdd dŵr gan ddilyn y canllawiau rheoliadol i glustnodi'r cyfuniadau mwyaf effeithiol o fesurau.

Mae CNC yn defnyddio modelau ansawdd dŵr i ddiffinio trwyddedau rhyddhau newydd ar gyfer asedau dŵr gwastraff DCWW, a lle bo angen, i dargedu gwaith monitro ac ymchwilio pellach. Mae amodau'r trwyddedau ar gyfer asedau cwmnïau dŵr yn cael eu ffurfioli a'u rhoi ar waith wedyn trwy'r prosesau arferol ar gyfer cynllunio a chyflawni buddsoddiadau.

# 3. Y SYSTEM GWYBODAETH DDAEARYDDOL AM DDOSBARTHIAD FFYNONELLAU (MODELU SAGIS)

Defnyddiwyd y System Gwybodaeth Ddaearyddol am Ddosbarthiad Ffynonellau (SAGIS) i greu cynrychiolaeth rithiol o ddalgylch Coedydd Meirionnydd.

Mae SAGIS yn deillio o ddulliau cynharach o fodelu (SIMCAT ac RQP) sydd wedi cael eu defnyddio yn y DU ers sawl degawd i fwydo buddsoddiadau mewn mesurau gwella ansawdd dŵr o fewn Diwydiant Dŵr y DU. Ynghyd â SIMCAT, SAGIS (a elwir hefyd yn SAGIS-SIMCAT) yw'r offeryn safonol y mae rheoleiddwyr a'r diwydiant dŵr yn ei ddefnyddio i glustnodi asedau lle mae angen rheoli ansawdd elifion. Y fersiwn o adeiladwaith SAGIS a ddefnyddiwyd ar gyfer yr astudiaeth hon oedd 1.0.8112.21765. Y fersiwn o SIMCAT oedd 15.7.

### DATA MODELU

Mae yna ddau brif fath o ddata yng nghronfeydd data modelu SAGIS – sef data mesuredig a data'r sector (ceir rhagor o fanylion am hyn yn Atodiad A):

- **Data mesuredig** – llif yr afon (ar gyfer y cyfnod 2015 i 2019) a mesuriadau ansawdd (ffosfforws) yn ogystal â llif ac ansawdd y deunydd sy'n cael ei ryddhau o'r gweithfeydd trin carthion (ar gyfer cyfnod data 2016 i 2019). Defnyddiwyd cyfnod o bedair blynedd ar gyfer llif yr afon am fod amodau anarferol mewn un flwyddyn yn llai tebygol o ogwyddo'r ystadegau dros gyfnod hirach. Defnyddiwyd cyfnod o bedair blynedd ar gyfer ansawdd yr afon oherwydd pryderon am fesuriadau afreolaidd yn 2014 a 2015. Lle nad oedd data mesur ar gael am ansawdd yr elifion, defnyddiwyd gwerth diofyn o 5mg/L. Ar gyfer gweithfeydd trin â thrwyddedau disgrifiadol, amcangyfrifwyd llif y deunydd a ryddheir ar sail maint y boblogaeth a wasanaethir wedi ei luosi gan 165 litr y person y dydd. Ar gyfer safleoedd eraill, seiliwyd y llif a ryddheir naill ai ar ddata mesuredig neu'r llif y caniateir ei ryddhau.

• **Data'r sector** – mewnbwn o ffynonellau heblaw dŵr gwastraff.

– Rhoddir amcangyfrifon o'r mewnbwn gwasgaredig yn y model fesul sector fel llwyth mewnbwn blynyddol fesul corff dŵr. O fewn y broses fodelu dosberthir llwythi cyrff dŵr ar draws parthau'r afon yn y corff dŵr gwreiddiol[1].

– Gorlifoedd Storm (CSOs) – mae SAGIS yn cynnwys cynrychiolaeth o'r mewnbwn o ollyngiadau ysbeidiol fel CSOs a thanciau storm. Cyflawnwyd astudiaeth datblygu dull er mwyn datblygu ffordd o fynd ati i ddefnyddio data modelu carthffosiaeth i wella'r ffordd y cynrychiolir y gorlifoedd storm o fewn SAGIS. Ni fwriadwyd i hyn gymryd lle, na bod yn ddewis amgen yn hytrach na modelu carthffosydd, yn hytrach, ffordd o fanteisio i'r eithaf ar werth a buddion y buddsoddiad wrth greu'r EDM a'r data modelu carthffosiaeth oedd hi. Diweddarwyd y model SAGIS i adlewyrchu mewnbwn o bedwar man rhyddhau ysbeidiol yr oedd data modelu carthffosiaeth ar gael ar eu cyfer.

## GRADDNODI'R MODEL

Proses i optimeiddio lefel y cysondeb rhwng y gwerthoedd a arsylwir a'r rhai a efelychir yw graddnodi SAGIS. O fewn y broses graddnodi, caiff y paramedrau sy'n rheoli llwyth mewnbwn y sector (cyfanswm llwyth y mewnbwn) a'r amrywiant (yr amrywiant sy'n gysylltiedig â chyfanswm llwyth y mewnbwn) eu haddasu ynghyd â'r gyfradd dadfeilio ddiffiniol (paramedr sy'n cynrychioli cyfuniad o effeithiau, gan gynnwys colledion yn yr afon oherwydd amsugnad i'r amgylchedd, dadfeiliad i sediment a thrawsffurfiant cemegol).

## HYDER YN Y MODEL

Yn dilyn y broses graddnodi, asesir lefel y cysondeb rhwng y gwerthoedd mesuredig a'r rhai a efelychwyd. Mae lefel y cysondeb yn helpu i glustnodi lleoliadau neu ranbarthau lle mae'r gwerthoedd a fodelir yn wahanol i'r gwerthoedd mesuredig, ac felly lle gallai'r model fod yn amhriodol i fwydo penderfyniadau (neu o leiaf i glustnodi lle gallai fod yna ansicrwydd ynghylch deilliannau'r gweithredoedd sy'n cael eu hategu gan allbwn y modelau)[2].

Yn achos model SAC Coedydd Meirionnydd, gwerthuswyd lefel y cysondeb rhwng y crynodiadau a arsylwyd a'r rhai a efelychwyd mewn saith lleoliad, â lefel Dda o gysondeb mewn pedwar o'r saith lleoliad.

## ARCHWILIAD O'R MODEL

Er mwyn darparu sicrwydd fod y model yn gadarn ac y gellir ei ddefnyddio fel sail ar gyfer cynllunio dŵr gwastraff, comisiynodd CNC ymarfer sicrhau ansawdd ar y gwaith modelu SAGIS-SIMCAT o ran y ffosfforws yn yr afon. Nodau hyn oedd: oedd sicrhau bod y modelau wedi cael ei hadeiladu a'u graddnodi yn unol â'r canllawiau cymeradwy; sicrhau bod y targedau cywir o ran ansawdd dŵr wedi cael eu rhoi ar waith yn y lleoliadau cywir, a bod lleoliad gofodol nodweddion y model yn gywir; clustnodi unrhyw anghysonderau rhwng y modelau a'r canllawiau, a helpu i flaenoriaethu unrhyw newidiadau sydd eu hangen; sicrhau bod allbwn y modelau wedi cael eu cynrychioli'n gywir yn yr offer a ddefnyddir at ddibenion cynllunio dŵr gwastraff.

I grynhoi, y casgliad oedd bod y model yn gyson â'r canllawiau cymeradwy a'i fod yn addas at y pwrpas o fwydo penderfyniadau cynllunio dŵr gwastraff. Caiff nifer o argymhellion blaenoriaeth is ar gyfer datblygu modelau eu cyfeirio ymlaen i'w hadolygu yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

[1] Goblygiad achlysurol o fewn y broses fodelu yw y gall mewnbwn o sectorau penodol gael ei ddosbarthu i rannau o'r afon lle nad oes disgwyl iddynt ddigwydd. Mae hyn yn digwydd o ganlyniad i gyfyngiadau ar fanylder data'r sector, a'r ffaith fod y gynrychiolaeth o'r ffordd y mae mewnbwn gwasgaredig yn cael ei ddosbarthu o fewn corff dŵr yn cael ei symleiddio.
[2] Defnyddiwyd y meini prawf canlynol fel nodweddion o sicrwydd/hyder yn y model:
• Da. Lle bo gwahaniaeth o <0.005 mg/L rhwng y gwerthoedd a arsylwyd a'r rhai a efelychwyd.
• Cymedrol. Lle bo gwahaniaeth o >0.005 mg/L rhwng y gwerthoedd a arsylwyd a'r rhai a efelychwyd, ond nad yw'r gwahaniaeth yn arwyddocaol yn nhermau ystadegol (neu lle bo nifer y samplau <12).
• Gwael. Lle bo gwahaniaeth o >0.005 mg/L rhwng y gwerthoedd a arsylwyd a'r rhai a efelychwyd.

# 4. CANLYNIADAU'R MODEL


Yn y pwynt pellaf i lawr y llif yn yr afon (a fodelwyd), mae'r canlyniadau'n dangos, o dan yr amodau cyfredol, bod tua 6kg o ffosfforws yn cael ei ryddhau o'r dalgylch yn ddyddiol.

Mae canlyniadau'r model SAGIS yn dangos bod cyfran helaeth o'r ffosfforws[3] yn deillio o'r gweithfeydd trin carthion. Mae'r model yn dangos taw GTDG, defnyddiau tir gwledig, gollyngiadau ysbeidiol a ffynonellau eraill sydd i gyfrif am 73%, 23%, 2% a 2%, yn y drefn honno, o'r crynodiad o ffosfforws (canlyniadau o'r fan bellaf i lawr y llif yn yr ACA). Mae'r canlyniadau'n dangos hefyd bod GTDG, defnyddiau tir gwledig, gollyngiadau ysbeidiol a ffynonellau eraill i gyfrif am 62%, 32% 4% a 2% o'r llwyth ffosfforws, yn y drefn honno. Yn unol â chanllawiau CNC a gymeradwywyd yn ddiweddar, dylai penderfyniadau gael eu gwneud ar sail y crynodiadau[4].

Dylid nodi bod crynodiad a dosbarthiad y llwythi'n wahanol am fod mewnbwn o wahanol ffynonellau'n dueddol o ddigwydd o dan wahanol amodau o ran llif yr afon. Er enghraifft, mae mewnbwn o'r gweithfeydd trin yn digwydd yn barhaus (h.y o dan amodau llif uchel ac isel) ond mae mewnbwn o ffynonellau gwasgaredig yn dueddol o ddigwydd o dan amodau llif uwch yn yr afon yn unig pan fo'n cael ei wanhau yn fwy gan y dŵr sy'n ei dderbyn. Ar gydbwysedd felly, mae hynny'n golygu y bydd cilogram o ffosfforws sy'n cael ei ryddhau o weithfeydd trin yn cael effaith gymharol fwy ar y crynodiad yn yr afon na'r mewnbwn cyfatebol o ffynonellau gwasgaredig. Mae gwybodaeth dosbarthu crynodiadau'n bwysig am ei bod yn gosod y sylfaen ar gyfer y mesurau sy'n cael eu rhoi ar waith gan y gwahanol sectorau i leihau eu mewnbwn. Dylid nodi y bydd y dosbarthiad yn wahanol mewn gwahanol leoliadau o fewn y dalgylch.

Mae'r gwaith modelu'n cymryd effeithiau dadfeiliad i ystyriaeth hefyd. Yn y cyd-destun hwn, mae hyn yn cynrychioli cyfuniad o ddylanwadau, gan gynnwys colledion yn yr afon oherwydd amsugnad i'r amgylchedd, dyddodiant fel sediment, a thrawsnewidiad cemegol. Felly nid yw'r llwyth yn y pwynt pellaf i lawr y llif o reidrwydd yr un fath â chyfanswm llwyth y mewnbwn.

Mae SAGIS yn darparu amcangyfrif o'r cyfraniad ffosfforws o'r CSOs yn y dalgylch hefyd. Amcangyfrifwyd bod y rhain i gyfrif am tua 2% o'r crynodiad o ffosfforws a tua 4% o'r llwyth ffosfforws sy'n mynd i mewn i'r dalgylch. Ffeindiwyd taw cyfyngedig oedd effaith y gorlifoedd storm ar y crynodiadau blynyddoedd cyfartalog (sef y ffurf ar gyfer mynegi'r safonau o ran ffosfforws). Cynigir darlun gweledol o'r wybodaeth yma yn Ffigur 2. Mae argaeledd data monitro ansawdd dŵr a data am berfformiad gweithfeydd trin carthffosiaeth yn golygu bod gwaith monitro SAGIS yn darparu fframwaith cadarn i'w ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau am gynllunio buddsoddiadau dŵr gwastraff. Ar y cyfan, mae yna fwy o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon o'r llwyth o ffynonellau gwasgaredig o sectorau eraill o fewn SAGIS.




Ffigur 2 – Dosbarthiad y ffosfforws fesul ffynhonnell yn y pwynt pellaf i lawr y llif yn nalgylch Coedydd Derw Meirionnydd. Dylid nodi bod y categori 'Arall' yn cynnwys amcangyfrif o gyfraniad y ffynonellau gwasgaredig o ddŵr ffo trefol, diwydiant a thanciau septig.

[3] Defnyddir orthoffosffadau a ffosfforws yn gyfnewidiol.
[4] Am taw dyma'r ffurf ar gyfer mynegi'r safonau.

# 5. MODELU SENARIOS

Mae'r model SAGIS wedi cael ei raddnodi a chaiff ei ddefnyddio'n fuan i brofi effaith ddamcaniaethol y newidiadau yn ansawdd yr elifion mewn amrywiaeth o GTDG yn y dalgylch (h.y. senarios 'beth os'). Ni fwriedir i'r senarios gynrychioli opsiynau ymarferol o reidrwydd, ond yn hytrach, bwriedir iddynt helpu i lywio maint y sialensiau rheoli sydd yna o fewn y dalgylch.

# ATODIAD

### DATA'R MODEL

Mae dau brif fath o ddata yng nghronfeydd data model SAGIS, sef data mesuredig a data fesul sector. Daw'r data mesuredig o weithgareddau monitro cyffredin, ac maent yn cynnwys gwybodaeth am ansawdd afonydd sydd yn nwylo CNC, a gwybodaeth am lif yr afon a gesglir gan fedryddion llif afonol cenedlaethol. Caiff y modelau eu graddnodi ar sail y data mesuredig, felly mae disgwyl i'r modelau ail-greu (yn rhithiol) yr amodau sy'n cwmpasu'r cyfnod o amser pan gasglwyd y data mesuredig. Datblygwyd y model ar gyfer ACA Coedydd Derw Meirionnydd gan ddefnyddio data ar gyfer y cyfnod rhwng 2016 a 2019[5].

Ffeindiwyd yr adroddwyd canlyniadau ar sail dau ddull gwahanol o ddadansoddi ar gyfer nifer fawr o samplau unigol (data CNC); gyda chanlyniad 'isel' (dull 21) ac 'isel iawn' (dull 24). Lle'r adroddwyd canlyniadau dulliau 21 a 24 ill dau, defnyddiwyd canlyniad dull 24 i bennu'r ystadegau cryno fel y cytunwyd gyda CNC. Dilëwyd gwerthoedd allanol oedd yn uwch na lawer na'r crynodiadau disgwyliedig hefyd. Yn achos dalgylch Coedydd Derw Meirionnydd, defnyddiwyd yr holl samplau.

Mae data'r sector a gynhwysir yng nghronfeydd data'r model yn cynrychioli amcangyfrifon o fewnbwn o ffynonellau heblaw gweithfeydd trin dŵr gwastraff, a ffynonellau gwasgaredig yn bennaf. Cynhwysir amcangyfrifon o fewnbwn gwasgaredig yn y model fesul sector fel mewnbwn llwyth blynyddol, a hynny fesul cwrs dŵr[6]. O fewn y broses fodelu, caiff llwythi'r corff dŵr yma eu dosbarthu ar draws parthau'r afon yn y corff dŵr gwreiddiol. Un o'r goblygiadau achlysurol yw y gellir dosbarthu mewnbwn prosesau modelu o rai sectorau penodol i rannau o'r afon lle nad oes disgwyl iddynt fod o fewn y broses fodelu, er bod hyn yn dueddol o effeithio'n bennaf ar rannau o'r afon sydd mewn lleoliadau blaenddwr.

Seilir yr amcangyfrifon o ran mewnbwn defnydd tir gwledig ar ddata o fodel Phosphorus and Sediment Yield Characterisation In Catchment (PSYCHIC; Davison et al., 2008; Stromqvist et al., 2008), sy'n darparu amcangyfrif o 'golledion' ffosfforws i gyrff dŵr ar raddfa grid 1km2, ond sydd wedi cael eu hagregu ar raddfa corff dŵr i'w defnyddio o fewn SAGIS[7]. Mae'r llwybrau trosglwyddo a fodelwyd yn cynnwys ffosfforws sy'n cael ei ryddhau o'r pridd, gwahaniad o'r sediment a ffosfforws gronynnol cysylltiedig, colledion achlysurol o daenu tail a gwrtaith, colledion o safleoedd caled a'r ffordd y mae'r holl bethau uchod yn cael eu cludo i gyrsiau dŵr trwy danddraeniau (lle bo'r rheiny'n bodoli) a thrwy lwybrau ar wyneb y ddaear Mae'r model yn sensitif i nifer o benderfyniadau o ran hwsmonaeth cnydau ac anifeiliaid, yn ogystal â ffactorau amgylcheddol fel mathau o bridd ac ongl goleddfu'r cae. Mae'r model PSYCHIC yn defnyddio'r model draenio cymedrig o ran yr hinsawdd (MCDM, Anthony, 2003) i gyfrifo'r anwedd-drydarthiad, diffyg lleithder yn y pridd, a draenio'r pridd. Mae presenoldeb systemau draenio artiffisial a phwysigrwydd cymharol gwahanol lwybrau draenio o dan yr wyneb yn seiliedig ar ddosbarthiad Hydrology of Soil Types (HOST; Boorman et al., 1993). Defnyddiwyd PSYCHIC ar draws y DU i ategu polisi'r llywodraeth (e.e. Anthony et al., 2005; Gooday et al., 2015) ac fe'i cymhwyswyd i nifer o ddalgylchoedd Ewropeaidd (Silgram et al., 2008). Daw'r data cyfredol am ffosfforws o fewn SAGIS ar gyfer Cymru a Lloegr o'r model PSYCHIC (Davison et al., 2008) ar sail data'r cyfrifiad amaethyddol ar gyfer 2010.

[6] Mae hyn yn awgrymu y bydd amodau'r dyfodol yn gynrychiadol o'r amodau o fewn cyfnod y cipolwg. Mae'r modelau'n cael eu diweddaru a'u hail-raddnodi'n gyfnodol.
[7] Dyma'r raddfa y gellir meintioli mewnbwn sectorau gwasgaredig iddi â lefel resymol o hyder.
[8] Mae'r ansicrwydd sylweddol sy'n gysylltiedig ag amcangyfrifon ar gyfer gridiau 1km2 yn dderbyniol yn gyffredinol.

## CYFEIRIADAU


Comber, S. D. W., Smith, R., Daldorph, P., Gardner, M. J., Constantino, C., ac Ellor, B. (2013). Development of a chemical source apportionment decision support framework for catchment management. Environmental Science & Technology, 47(17), 9824–32.

Silgram, M., Anthony, S.G., Fawcett, L. a Stromqvist, J. (2008) Evaluating catchment-scale models for diffuse pollution policy support: some results from the EUROHARP project. Environmental Science and Policy, 11, 153-162.

Strömqvist, J., Collins, A.L., Davison, P.S. a Lord, E.I. (2008) PSYCHIC – A process-based model of phosphorus and sediment transfer within agricultural catchments. Part 2. A preliminary evaluation. Journal of Hydrology, 350(3-4), 303-316.

Davison, P.S., Withers, P.J.A., Lord, E.I., Betson, M.J. a Stromqvist, J., (2008) PSYCHIC – a process-based model of phosphorus and sediment transfers within agricultural catchments. Part 1. Model description and parameterisation. Journal of Hydrology, 350(3-4), 290-302.